**C y n g o r S i r**
# Ddinbych

# Denbighshire
## County Council

**At:** **Y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio**

Dyddiad: 5ed Rhagfyr 2006

Gofynnwch am: Wendy Harness

Llinell Uniongyrchol: 01824 706210

e-bost: wendy.harness@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Gofynnir i chi ddod i gyfarfod o'r **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhelir yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR , RHUTHUN, DDYDD MERCHER, 13eg Rhagfyr 2006** am **9.30A.M.**

Yr eiddoch yn gywir

I K Hearle
Clerc y Sir

**AGENDA**

Rhennir Agenda'r cyfarfod yn ddwy ran. Trafodir eitemau Rhan I ym mhresenoldeb y Wasg a'r Cyhoedd oni bai bod yr Aelodau'n penderfynu gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried eitem oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel arall. Fodd bynnag, pan fo eitemau yn Rhan II, argymhellir bod yr Aelodau'n gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried yr eitemau hynny am y rhesymau a nodir uchod.

**YMDDIHEURIADAU**

**RHAN I**

**1 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**2 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Ystyried adroddiadau gan Swyddogion Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd (amgeuir copi).

**3 EITEMAU GORFODI**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (amgeuir copi).

**4 FFIOEDD A THALIADAU**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (amgeuir copi).

**5 DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE**

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (amgeuir copi).

**6 DIOWEDDARIAD GORFODAETH**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - er gwybodaeth (amgeuir copi).

**7 CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG – 14EG HYDREF - 20FED TACHWEDD 2006**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd - er gwybodaeth (amgeuir copi).

**8 EITEMAU BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn rhai brys (yn unol ag Adran 100(B)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol,1972) y nodwyd eu sylwedd o dan eitem 1 uchod**.**

**RHAN II**

Dim eitemau

**AELODAU**

Cynghorydd J.R. Bartley
Cynghorydd R.E. Barton
Cynghorydd B. Blakeley
Cynghorydd J. Butterfield
Cynghorydd J.Chamberlain Jones
Cynghorydd J.M. Davies
Cynghorydd M.Ll. Davies
Cynghorydd S.A. Davies
Cynghorydd G.C. Evans
Cynghorydd H.H. Evans
Cynghorydd S. Frobisher
Cynghorydd I.M. German
Cynghorydd M.A. German
Cynghorydd T.R. Hughes
Cynghorydd E.R. Jones
Cynghorydd H. Jones
Cynghorydd M.M. Jones
Cynghorydd N. Hugh-Jones
Cynghorydd G.M. Kensler
Cynghorydd P.W. Owen
Cynghorydd N.P. Roberts
Cynghorydd J.A. Smith
Cynghorydd D.A.J. Thomas
Cynghorydd S. Thomas
Cynghorydd J. Thompson-Hill
Cynghorydd M.A. Webster

| | |
|---|---|
| Cynghorydd D. Hannam | Cynghorydd C.H. Williams |
| Cynghorydd T.K. Hodgson | Cynghorydd R.Ll. Williams |

**COPIAU**:

Pob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PROTOCOL I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r canlynol yn sefydlu sut y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio'n cynnal y Pwyllgor Cynllunio er mwyn sicrhau fod y trafodaethau yn eglur, yn gyson ac yn deg.

Wrth gadarnhau'r protocol a'i amcanion mae'r Cyngor yn pwysleisio na ddylai unrhyw Aelod lobïo unrhyw Aelod arall cyn y Pwyllgor. Mae'r ffaith fod gan bobl nad ydynt yn aelodau hawl i siarad gyda chaniatâd y Cadeirydd yn ddigon o sicrwydd y bydd pob barn yn cael ei mynegi yn y cyfarfod.

1. Bydd y Cadeirydd yn agor y trafodaethau am 9.30am ac yn croesawu pawb i'r Pwyllgor Cynllunio.

2. Bydd swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor o unrhyw newidiadau o sylwedd yn yr agenda neu yn ei threfn gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd yn siarad, eitemau a ohiriwyd neu a dynnwyd yn ôl. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan Adroddiad Adendwm – Llythyrau Hwyr a Newidiadau (y "ddalen las").

3. Bydd unrhyw gais i geisiadau gael eu dwyn ymlaen i ddechrau'r cyfarfod yn cael ei gynnig gan Aelodau, ac, os ceir eilydd, cynhelir pleidlais.

4. Bydd ceisiadau gydag aelod o'r cyhoedd yn siarad yn cael eu gosod fel rheol ar flaen yr agenda.

5. Bydd ceisiadau gyda siaradwyr o'r cyhoedd yn cael eu hystyried fel arfer cyn y rhai heb siaradwyr o'r cyhoedd.

6. Y canlynol fydd trefn y drafodaeth ar bob eitem (cais cynllunio neu adroddiad gorfodaeth) cyn yr agenda.

   i) Bydd siaradwyr dros ac yn erbyn yn siarad yn unol â'r protocol ar gyfer siaradwyr o'r cyhoedd.

   ii) Bydd y Cadeirydd yn gofyn am gynigydd ac eilydd ar gyfer yr argymhelliad neu ar gyfer unrhyw gynnig arall.

   iii) Bydd swyddogion yn cyflwyno'r eitem gan ddatgan y prif faterion cynllunio gan gynnwys cyfeirio at arddangosion gweledol.

   iv) Os cynigir ac eilir y dylid gohirio ar gyfer Ymweliad Safle gan y Panel Aelodau bydd raid trafod yn gyntaf pam y dylid cynnal

Ymweliad Safle a’r rhesymau cynllunio dros hynny. Mae hyn yn y cyd-destun y dylai’r cais am Ymweliad Safle fel rheol gael ei wneud cyn y Pwyllgor Cynllunio fel y gwelir o’r Canllawiau ar gyfer Panelau Ymweliad Safle.

v) Os oedd y Panel Ymweld wedi cynnal Ymweliad Safle o’r blaen ar gyfer unrhyw gais, bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau a oedd ar y Panel hwnnw, gan gynnwys Aelod Ward, i siarad yn gyntaf, cyn Aelodau eraill.

vi) Ar geisiadau eraill, gwahoddir Aelod y Ward i siarad gyntaf.

vii) Cyfyngir Aelodau i siarad am ddim mwy na phum munud yn unol â’r rheolau sefydlog.

viii) Unwaith y bydd Aelod wedi siarad, ni fydd yr Aelod hwnnw’n siarad eto oni bai i ofyn am eglurhad ar bwynt a godwyd yn y ddadl a dim ond ar ôl i bob Aelod arall gael cyfle i siarad a hynny gyda chaniatâd y Cadeirydd.

ix) Ar ôl y ddadl bydd y Cadeirydd yn gofyn i Swyddogion ymateb i unrhyw gwestiwn a chrynhoi unrhyw fater yn codi o’r ddadl gan gynnwys cyngor ynghylch unrhyw benderfyniad a fyddai’n groes i argymhelliad y Swyddog.

x) Bydd y Cadeirydd yn rhoi unrhyw gynnig i bleidlais.

xi) Ni fydd y Cadeirydd yn goddef unrhyw ymyriad gan Aelodau heb ei ganiatâd na sgwrs rhwng Aelodau neu Swyddogion a ellir ei chlywed nad yw’n rhan o’r ddadl.

xii) Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno rhybudd yn y lle cyntaf os na chedwir at y protocol uchod. Gall toriadau pellach ar y protocol arwain at gynnig o dan Reol Sefydlog 18.3 na ddylid clywed yr Aelod ymhellach a allai arwain yn y pen draw at gynnig o dan Reol Sefydlog 18.4 i y dylai’r aelod adael y cyfarfod pe byddai’r ymddygiad amhriodol yn parhau.

xiii) Bydd y Cadeirydd yn datgan yn glir beth yw’r penderfyniad unwaith y bydd wedi’i wneud.